| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **28 CHWEFROR, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN CYNEFINO A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG<br>EBRILL 2017 - MAWRTH 2018** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I’R CYNGOR GYMERADWYO CYNLLUN CYNEFINO A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Ar y cyd ag Awdurdodau Lleol/ Aelodau Etholedig yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu Rhaglen Gynefino ar gyfer Aelodau newydd, am y cyfnod ar ôl Mai 2017, ac mae'n cynnwys hyfforddiant gorfodol / arferion gorau. Ar ôl derbyn sylwadau gan Dîm Rheoli / Swyddogion CSYM ac Arweinyddion Grwpiau, mae'r rhaglen hon wedi ei theilwra i sicrhau ei bod yn cynnwys anghenion lleol.

Mae'r rhaglen yn fframwaith amlinellol ar gyfer darparu’r hyfforddiant. Penderfynwyd darparu’r hyfforddiant fesul tipyn a hynny er mwyn osgoi gorlwytho Aelodau Etholedig â nifer fawr o sesiynau hyfforddi a gorymrwymo eu hamser.

Darperir yr hyfforddiant ar sawl ffurf gan gynnwys gweithdai; mentora; e-ddysgu; hyfforddiant un-i-un ac ati. Os oes modd, cynigir cyfleoedd hyfforddi sy’n gyfuniad o wahanol ddulliau dysgu er mwyn gwella'r broses.

Cyn belled ag y bo modd, ceisir cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau’r Aelodau Etholedig, gan gynnwys eu cyfrifoldebau gofalu personol / trefniadau cyflogaeth eraill. Felly cynigir cymysgedd o sesiynau yn ystod y dydd a chyda'r nos. Pryd bynnag y bo modd, bydd y sesiynau’n cael eu trefnu ar gyfer dyddiau Iau / Gwener, gan osgoi prynhawn dydd Iau cyntaf pob mis (pan gynhelir sesiynau briffio ar gyfer Aelodau).

Bwriedir i’r rhaglen fod yn un sy’n "esblygu" ac sy’n cymryd i ystyriaeth bod blaenoriaethau yn gallu newid e.e. blaenoriaethau’r Awdurdod / Rhanddeilaid Allanol ac

ati.  Bydd hefyd yn cymryd anghenion hyfforddiant personol yr Aelodau eu hunain i ystyriaeth. Ystyrir bod Adolygiadau Datblygiad Personol yr Aelodau yn elfen hanfodol o'r broses ddatblygu, gan sicrhau y nodir anghenion hyfforddiant ychwanegol a bod yr anghenion hynny'n cael sylw parhaus.

Mae'n hanfodol ein bod yn deall anghenion Aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well yn eu swyddogaethau trwy ddarparu hyfforddiant datblygu priodol.  Trwy fonitro, gwerthuso ac  adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd gellir sicrhau ei bod yn "addas i'r diben" ac o'r ansawdd iawn .

Bydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl allweddol wrth fonitro cynnydd ar sail reolaidd, gan gynnwys adolygu / diweddaru'r rhaglen yn seiliedig ar anghenion yr Aelodau a'r sefydliad. Yn ogystal, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau, fel y bo'n briodol.

## ARGYMHELLIAD:

Mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant Cynefino amgaeedig fel fframwaith ar gyfer datblygu Aelodau yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2017 a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud unrhyw addasiadau pellach fel sy'n briodol.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu a Hyfforddiant Adnoddau Dynol**
**20.2.17**

**Rhaglen cyflwyno CSYM i gynghorwyr (ar sail model CLILC) dros flwyddyn gan ddangos cyfleoedd i gyfuno hyfforddiant gorfodol yn ôl argaeledd adnoddau.**

**Bwriedir, lle bosib, cynnal y sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau.**

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Deunyddiau hyfforddi ar gael/angenrheidiol | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynefino (Swyddfeydd y Cyngor a threfniadau cefnogaeth Aelodau) | Aelodau Etholedig Newydd | JHJ | Gwybodaeth, mapiau ac ati yn rhan o raglen pob awdurdod. Dylai copïau caled o lawlyfr CLILC i gynghorwyr fod ar gael. | **Wythnos 1** Cychwyn 08/05/2017 |
| Cyflwyno'r cyngor, ei rôl a threfn ei lywodraethu a Rhaglen Waith Strategol | Pob Aelod Etholedig | Prif Weithredwr | I'w llunio gan staff yn lleol. | **Wythnos 1** Cychwyn 08/05/2017 |
| Cyflwyno TGCh a'r offer yn cynnwys ymwybyddiaeth o Gyfryngau cymdeithasol | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion TGCh, sesiynau unigol. | Sesiwn a chanllawiau i'w llunio gan staff yn lleol. | **Wythnos 1** Cychwyn 08/05/2017 |
| Cyflwyno'r amryw wasanaethau | Pob Aelod Etholedig | Pob uwch swyddog (2 sesiwn x1 awr) | Dylai gwybodaeth sylfaenol fod yn y pecyn cyflwyno ac ati. | **Wythnos 2** Cychwyn 15/05/2017 |
| Côd Ymddwyn a Moeseg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro. Fideo'r Ombwdsmon a ffyn data. | Mae tri cyfreithiwr yn helpu CLILC i baratoi deunyddiau a diweddaru'r dysgu electronig. | **Wythnos 2** Cychwyn 15/05/2017 |
| Materion cyfansoddiadol megis cymryd rhan mewn cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddog Monitro | Cwrs Mewnol | **Wythnos 2** Cychwyn 15/05/2017 |
| Materion ariannol megis pennu cyllidebau a rheoli'r trysorlys | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Cyllid a dysgu electronig | Mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Mae angen dysgu electronig. | **Wythnos 3** Cychwyn 22/05/2017 |
| Trefniadau newydd pwyllgorau cynllunio yn sgîl Deddf Cynllunio | Pwyllgor cynllunio **(M)** | Swyddog Cynllunio | Mae CLILC yn comisiynu deunyddiau i'r wlad gyfan trwy gylch cynghori. | **Wythnos 4** Cychwyn 29/05/2017 |

DRAFT

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Deunyddiau hyfforddi ar gael/angenrheidiol | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| Materion cynllunio i gynghorwyr nad ydynt yn ymwneud â'r maes hwnnw – protocolau | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Swyddogion Cynllunio/Aelod profiadol | Deunyddiau i'w comisiynu gan gylch cynghori o dan nawdd Llywodraeth Cymru, gyda cymorth Swyddogion Cynllunio | **Wythnos 4** Cychwyn 29/05/2017 |
| Gofynion newydd o ran polisïau, gwasanaethau a'r gyfraith | Pwyllgorau perthnasol | Pennaethiaid Gwasanaethau | Gan staff lleol yn ôl yr angen. Papurau hysbysu gan Lywodraeth Cymru? | Sesiynau briffio yn cychwyn mis Mehefin |
| Rôl Pwyllgorau Craffu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd/Swyddogion Craffu | Cwrs Mewnol. Mae CLILC yn llunio'r dysgu electronig ar y cyd â rheolwyr materion craffu. | **Wythnos 5** Cychwyn 05/06/2017 |
| Cadeirio Craffu (rheolaeth pwyllgorau a cyfarfodydd) | Cadeirydd pob pwyllgor craffu | Hwyluswyr allanol | Deunyddiau hwyluswyr allanol. | **Wythnos 5** Cychwyn 05/06/2017 |
| Archwilio | Pwyllgor Achwilio **(M)** | Swyddogion Cyllid | Cwrs Mewnol | **Wythnos 5** Cychwyn 05/06/2017 |
| Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy - Cyfarwyddwr Addysg a Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu electronig. | Dysgu electronig trwy wefan Academi Cymru ac mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Llawlyfr SSIA i gynghorwyr. | **Wythnos 6** Cychwyn 12/06/2017 |
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. | Mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Llawlyfr SSIA i gynghorwyr. | **Wythnos 6** Cychwyn 12/06/2017 |
| Deddf Tai | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai. | Mewnol | **Wythnos 9** Cychwyn 03/07/2017 |

DRAFT

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Deunyddiau hyfforddi ar gael/angenrheidiol | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. | Mae modiwl dysgu electronig, gwybodaeth ar gael drwy gwefan Cyngor Gofal ac mae deunyddiau lleol ar gael bellach. | **Wythnos 9** Cychwyn 03/07/2017 |
| Penderfynu er lles cenedlaethau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | Mae dysgu electronig ar gael trwy wefan Academi Cymru. | **Wythnos 9** Cychwyn 03/07/2017 |
| Rheoli data a Deddf Mynnu Gwybodaeth | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy a dysgu electronig. | Mae dau fodiwl ar gael trwy Academi Cymru – Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.<br>Sesiynau mewnol hefyd ar gael | **Wythnos 10** Cychwyn 10/07/2017 |
| Cyflwyniad i Cydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy swyddogion cydraddoldeb a dysgu electronig. | Mae dysgu electronig ar gael trwy wefan Academi Cymru ac mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. | **Wythnos 11** Cychwyn 17/07/2017 |
| Arwain cymuned a thrin a thrafod achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e-ddysgu | Mae modiwl am waith cynghorydd yn y ward ar y gweill – bydd ar gael trwy Academi Cymru. | **Medi 2017 ymlaen** |
| Datblygu Pwyllgor Gwaith newydd | Pwyllgor Gwaith | Hwyluswyr allanol | Deunyddiau hwyluswyr allanol. | **Medi 2017 ymlaen** |
| Cynghorwyr Newydd, Heriau Newydd | Pob Aelod Etholedig | Pum gweithdy rhanbarthol gan CLILC – yn Llandudno | Ymddygiad cynghorwyr llwyddiannus. Cynghorwyr digidol. Rheoli'r arian. Cwrdd â'r aelodau (Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cynulliad, CLILC) | **Tachwedd 2017** |

DRAFT

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Deunyddiau hyfforddi ar gael/angenrheidiol | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau Cynlluniau Datblygu (CDP) ac Adroddiadau Blynyddol | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion CLILC/Uwch Swyddogion | Cyfuniad o sesiynau hyfforddiant mewnol ac allanol | **Tachwedd 2017** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/e-ddysgu | Dysgu electronig trwy wefan Academi Cymru | **Yr ail chwe mis** |
| Gwaith Consortia Addysg | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Staff Consortia | Manylion i'w cadarnhau | **Yr ail chwe mis** |
| Penodiadau, apeliadau a medrau cyfweld | Aelodau paneli penodi **(M)** | Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol | Cwrs Mewnol | **Cyn cymryd rhan** |
| Safonau | Pwyllgor safonau **(M)** | Swyddog Monitro | Cwrs Mewnol | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |
| Trwyddedu | Pwyllgor trwyddedu **(M)** | Swyddog Trwyddedu | Cwrs Mewnol | **Cyn y cyfarfod cyntaf** |

**(M) = Mandadol**

**Bydd hyfforddiant pellach ar wybodaeth a sgiliau'n cael ei benderfynu o CDP pan fydd anwytho wedi ei gwblhau**

**LLC – Llywodraeth Cymru**
**CLILC – Cymdeithas Llywordraeth Leol Cymru**
**ACG – Academi Cymru Gyfan**
**SSIA – Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

DRAFT